Mentrau Iaith Cymru

Conwy, Dinbych, Fflint, Hunaniaith, Maelor a Môn

IAITH Y MÔR A'R MYNYDD

Arian newydd i Hyfforddi Hyfforddwyr Cymraeg yn eich ardal chi!

Ydych chi'n mwynhau'r Awyr Agored? Ydych chi eisiau gweithio yn y Sector Awyr Agored ac angen cymwysterau?

Dengys canlyniadau gwaith ymchwil a wnaed gan Brifysgol Bangor ychydig flynyddoedd yn ôl mai dim ond 5% o holl weithwyr Awyr Agored yn ardal gogledd orllewin Cymru oedd yn gallu siarad Cymraeg. Nid yw'r canran yma yn adlewyrchiad o nifer y siaradwyr Cymraeg sydd yn byw yn yr ardal.

Fel ymateb i'r angen am weithwyr cyfrwng Cymraeg lleol, sefydlodd Menter Iaith Conwy gynllun hyfforddi arweinwyr awyr agored ar gyfer siaradwyr Cymraeg e'u hiaith.

Hyfforddwyd 147 o unigolion i fod yn Arweinwyr Awyr Agored drwy'r cynllun yng Nghonwy dros gyfnod o 3 mlynedd gan brosiect a arianwyd yn rhannol gan Gynllun Datblygu Gwledig Llywodraeth Cymru a'r Undeb Ewropeaidd.

Dywed Medwyn Williams:

"Heb y cyllid, mi fuasai wedi bod yn anodd iawn i mi gael y cymwysterau. Diolch i Menter Iaith Conwy, gan fy mod rŵan yn gweithio ac yn gwirfoddoli yn y maes Awyr Agored."

Ar y cyd gyda gweddill Mentrau Iaith eraill y Gogledd llwyddwyd i ddenu mwy o arian gan Gynllun Datblygu Gwledig Trawsffiniol Llywodraeth Cymru a'r Undeb Ewropeaidd i gynnig cymorth ariannol tuag at hyfforddi rhagor o siaradwyr Cymraeg i fod yn arweinwyr yn y sector awyr agored.

Mae'r cynllun newydd wedi cychwyn, ac yn cynnig ariannu 75% o gost cyrsiau cymhwyso unigolion sy'n siarad Cymraeg i fod yn arweinyddion mewn unrhyw faes o fewn y sector awyr agored.

Felly os ydych yn byw neu'n gweithio mewn ardal wledig yng ngogledd Cymru a hefo diddordeb i gwblhau cymhwyster awyr agored cysylltwch hefo: Bedwyr ap Gwyn / Esyllt Tudur 01492 642357.

cae cronfa arbrofol eryri an environment development fund
Partneriaeth Wledig Conwy Rural Partnership
Conwy County Borough Council / Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
The European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas
LEADER
Llywodraeth Cymru Welsh Government